



## Cyngor Cymuned Pennal Council

Pwyllgor Nos Lun 23 sin o Fedi 2021yn y ganolfan am 7.00.

Croesawyd pawb gan y Cadeirydd wedi gorfod newid dyddiad pwyllgor

Cafwyd ymddiheiriad gan William Rees a Keneth Griffiths.

.Diolchwyd am bresenoldeb pawb ar fyr rybudd.

Aethpwyd ymlaen I drafod yr agenda dyddiad Medi 17eg

Talu am yr archwiliad mewnol Cyngor Gwynedd £216 cytunwyd I dalu hyn cynigiwyd gan Aled Rees a g eiliwyd gan James Brunton

Cyfeiriwyd at y golled o un o gyn gynghorwyr sef Mrs Avrina Jones Brynllinos Pennal Cdyndeimlwn yn fawr a Janet a David ar teulu gyd .yn ei colled

Cyfraniad y Cyngor tuag at atgyweirio cloc y plwy sydd wedi ei leoli ar dwr yr eglwys penderfynwyd cyfrannu £350 I gwblhaur gwaith.

Meinciau Newydd wedi ei archebu ac wedi cyraedd ai lleoli o amgylch y pentref.

Cais cynllunio Gwerniago I godi porch NP5/75/156G pawb yn unfrydol Dim gwrthwynebiad

Trafod cais Cynllunio Maesteg I godi 5 o dai .NP5/75/68B

Wedi trafod yn hir cynigiwyd gan Aled Rees ac fe eiliwyd hyn gan Hywel Evans

Ein bod fel Cyngor am gefnogir cais os bydd y tai yn cael eu gosod I deuluoedd lleol.

Roedd angen mwy o wybodaeth am ddyfodol y tai

Yden nhw yn mynd I fod yn dai fforddiadwy?

Tai gosod I deuluoedd lleol a bobol ifanc ein ardal ?

Wedir trafod penderfynwyd anfon at asiantaeth Adra i gael swyddog I lawr I drafod y cynlluniau sydd ganddynt os bydd y cais yn mynd trwyodd y cysylltudd rhwng y Cyngor a Adra ydi Ellyw Roberts ac fe fydd yn dod I fynychu Pwyllgor mis Chwefror or Cyngor I drafod y cais mewn mwy o fanylder mae o leia blwyddyn a hanner cyn dechrau unrhyw waith.

Cydymdeimlodd Aled Rees a r ran y cyngor ar clerch a oedd wedi colli ewythyrr yn ddiweddar.



Cyngor Cymuned Pennal Council